CYNGOR LLYFRAU CYMRU

CYSTADLAETHAU LLYFRAU CYMRAEG

I YSGOLION CYNRADD

2011–2012

MAES LLAFUR

ROWNDIAU 1 a 2

Blynyddoedd 5 a 6

Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen
Cyngor Llyfrau Cymru,
Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB
Ffôn (01970) 624151 * Ffacs (01970) 625385
E-bost: eirlys.parry@cllc.org.uk

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

CYNNWYS

	Tud
Crynodeb o'r gystadleuaeth	3
Rhestr Llyfrau	4
Canllawiau ar y Trafod	8
Canllawiau ar y Cyflwyniad	9
Trefnyddion Sirol 2011–2012	10
Ffurflen Gofrestru	11

Profiad gwefreiddiol!

(Y*sgol y Dderwen, Caerfyrddin*)

Mae'r plant wedi elwa'n fawr o'r profiad.
Rwyf wedi gweld sawl plentyn yn dod i fwynhau darllen o ganlyniad i'r gystadleuaeth.

(Dyfyniad athro)

DALIER SYLW Cynhelir y rownd genedlaethol ddydd Mercher, 20 Mehefin 2012.

(Dyddiad olaf derbyn enwau ysgolion ar gyfer y rownd genedlaethol yw dydd Gwener, 1 Mehefin 2012.)

CRYNODEB O'R GYSTADLEUAETH

Nod y gystadleuaeth yw annog diddordeb mewn darllen, creu gweithgaredd cymdeithasol o weithgaredd sy'n breifat yn ei hanfod, a defnyddio llenyddiaeth fel sail i ffurfiau celfyddydol eraill.

Ceir dwy ran i'r gystadleuaeth **i) TRAFOD ii) CYFLWYNIAD**.

ROWND 1 – Disgwylir i bob tîm ddewis **UN** llyfr o'r rhestr i'w drafod ac **UN** llyfr i'w gyflwyno.

ROWND 2 – Disgwylir i bob tîm ddewis **UN** llyfr o'r rhestr i'w drafod ac **UN** llyfr i'w gyflwyno. Rhaid dewis llyfrau gwahanol i'r rhai a ddewiswyd yn Rownd 1.

ROWND GENEDLAETHOL – Darperir rhestr o lyfrau trafod yn ystod tymor y gwanwyn ond caniateir defnyddio'r un cyflwyniad yn y Rownd Genedlaethol ag a baratowyd ar gyfer Rownd 2.

i) TRAFOD:

- 5–7 munud (4 aelod)
- Disgwylir i bob tîm ddarllen **UN** llyfr.
- Holi anffurfiol a geir yn y drafodaeth: holi barn yr aelodau am gymeriadau a digwyddiadau arbennig a thrafod y llyfr yn gyffredinol. Dylai pob aelod o'r tîm gyfrannu i'r drafodaeth.

Disgyblion Ysgol Sant Curig, enillwyr Tarian Dr Dewi Davies 2011

ii) CYFLWYNIAD:

- 6–8 munud (hyd at 8 aelod)
- Disgwylir i bob tîm ddewis **UN** llyfr gwahanol i'r un a ddewiswyd yn y Trafod.
- Dylai'r cyflwyniad apelio at gynulleidfa o blant o'r un oedran, i'w hannog i brynu'r llyfr a'i ddarllen.

MARCIAU
TRAFOD: 60
CYFLWYNIAD: 40

- Caniateir hyd at 8 disgybl i gyflwyno llyfr. Nid oes rhaid i'r aelodau sy'n cyflwyno'r llyfr fod yr un rhai â'r disgyblion a fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth(felly gall hyd at 12 o blant gael cyfle i gymryd rhan yn y gystadleuaeth.)

Disgyblion Ysgol Gymraeg Treganna a Than yr Eos, enillwyr Tlws Coffa Anwen Tydu 2011

RHESTR LLYFRAU

Rownd 1/Rownd 2: Rhaid dewis UN llyfr o blith yr isod ar gyfer y Trafod ac UN llyfr gwahanol ar gyfer y Cyflwyniad

---



Academi Iwan: Rhwng y Pyst
Cindy Jefferies, Seb Goffe (addasiad Gordon Jones)
9781845273064
Gwasg Carreg Gwalch
£4.99

Mae Marek am fod yn sgoriwr goliau enwog, ond aiff popeth o chwith pan mae'n gorfod chwarae yn y gôl i dîm Tŷ Charlton. Dydy Marek ddim yn hapus – sgorio goliau mae e am ei wneud, nid eu harbed.



Cyfres yr Onnen: Y Cwestiwn Mawr
Meinir Pierce Jones
9781847712134
Y Lolfa
£5.95

Caiff Dan, bachgen ifanc o Gaerdydd, ei anfon yn erbyn ei ewyllys, i sir Fôn at ei ewythr, Roli, wrth i'w fam ymweld â Pheriw. Ond ychydig a wyr Dan wrth iddo ffraeo a phwdu ar y daith i'r gogledd y byddai'r cyfnod ym Môn yn newid ei fywyd.



Cyfres Strach: Sêr y Nos
Martyn Geraint
9781848512467
Gwasg Gomer
£4.99

Nofel fywiog am griw o bobl ifanc sy'n aelodau o fand cyffrous iawn. Yn ogystal â bod yn gantorion a cherddorion cyfoes sy'n teithio'r wlad yn cynnal gigs, mae'r band hefyd yn gweithio fel ditectifs, dan oruchwyliaeth eu pennaeth cyfrin, BB.

Cyfres Strach: Brecwast i Gath, Swper i Gi
Sonia Edwards
9781848512146
Gwasg Gomer
£4.99

Dyma stori am hynt a helynt ci go arbennig, sef bullmastiff, a'r ci ei hun sy'n ei hadrodd. Mae e'n siarad â'r darllenydd ac yn dweud sut mae e'n gweld y byd.



Cyfres Swigod: Sam, y Capten a'r Siarc Od
Siân Lewis
9781848511187
Gwasg Gomer
£4.99

Mae'n Ddiwrnod y Llyfr ac mae plant y dosbarth i gyd wedi'u gwisgo fel cymeriadau amrywiol o fyd llyfrau. Ar y ffordd adref o'r ysgol, mae un o'r plant yn cael ei gamgymryd am un o'r cymeriadau a dyna ddechrau ar antur fawr.



Cyfres Swigod: Maestro
Sian Northey
9781848512153
Gwasg Gomer
£4.99

Mae Menna wedi dwlu'n llwyr ar geffylau ac yn treulio'i hamser sbâr i gyd yn gofalu am hen gobyn bach tew y bobl drws nesaf. Mae Jake, fodd bynnag, yn berchen ar geffyl mawr hardd o'r enw Maestro. Er hynny, pethau diflas yw ceffylau yn ei farn ef.

James a'r Eirinen Wlanog Enfawr
Roald Dahl (addasiad Elin Meek)
9781904357872
Rily
£5.99

Caiff James anturiaethau anhygoel wedi iddo dderbyn bag yn llawn tafodau crocodeil hud sy'n ei helpu i ddianc rhag ei ddwy fodryb greulon.



Lowri Angel
Jacqueline Wilson (addasiad Elin Meek)
9781848513686
Gwasg Gomer
£5.99

Nofel yw hon sy'n ymdrin â cholli ffrind, a'r modd y mae'r prif gymeriad yn dygymod â'r golled honno o ddydd i ddydd.



Y Llyfr Ryseitiau – Dinas y Dreigiau
Nicholas Daniels
9781855969193
Dref Wen
£5.99

Nofel ffantasi am ddyfodol cenedl y Cymry – dyfodol sy'n dibynnu'n llwyr ar lwyddiant y Tri Dewisol, Gwiddan, Olwen a Rhodri, i orchfygu eu gelynion arallfydol. Mae'n ddilyniant i'r nofel *Y Llyfr Ryseitiau – Gwaed y Tylwyth*.

‘Sais Ydi O, Miss!’
Brenda Wyn Jones
9780860741664
Gwasg Gwynedd
£4.95

Nofel hanesyddol fer am blant cefn gwlad sir Gaernarfon yn gorfod ymdopi â dyfodiad ifaciwîs i’r fro yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae’n cynnwys tystiolaeth ddogfennol o lyfrau lòg ac adroddiadau papur newydd o’r cyfnod.

Straeon o’r Mabinogi
Mererid Hopwood
9781848511798
Gwasg Gomer
£9.99



Casgliad o straeon y Mabinogi wedi’u haddasu’n arbennig ar gyfer plant. Gall y chwedlau fod yn astrus ar adegau i'r gynulleidfa iau ac mae’r fersiwn hwn yn ddeniadol a dealladwy i blant.

.

Roedd cystadlu yng nghystadleuaeth y Cyngor Llyfrau’n brofiad gwerthfawr iawn. Credaf fod y sesiynau trafod a pharatoi cyflwyniad wedi gwella safon llafaredd y plant ac wedi meithrin diddordeb mewn llyfrau Cymraeg.

(*Ysgol y Gelli, Caernarfon*)

Am wybodaeth ac adolygiadau o’r llyfrau uchod ewch i gwales.com llyfrau ar-lein

CANLLAWIAU I YSGOLION AR Y TRAFOD

CYFFREDINOL

1. Trafodaeth anffurfiol a geir rhwng y beirniad a'r tîm.

2. Ni fydd disgwyl i'r tîm fod wedi paratoi trafodaeth benodol o flaen llaw. Bydd disgwyl iddynt ymateb i gwestiynau a sylwadau'r beirniad.

3. Mae'r gystadleuaeth hon yn gofyn am fynegi barn a chael cyfraniadau gan bob aelod o'r tîm.

4. Mae'n bwysig i'r plant ddysgu gwrando ar ei gilydd ac i gytuno neu anghytuno â'i gilydd yn gwrtais.

AM BETH FYDD Y BEIRNIAD YN CHWILIO?

- Gwybodaeth drylwyr o'r llyfrau a ddarllenwyd.
- Y gallu i fynegi barn yn glir a chroyw.
- Trafod fel grŵp gan gytuno neu anghytuno â barn eraill yn y tîm.
- Y gallu i fynd dan groen y llyfrau lle mae hynny'n bosib neu'n briodol.
- Y gallu i roi rhesymau gonest a theg dros farn neu safbwynt.
- Cyfraniad cyfartal a chytbwys gan bedwar aelod y tîm.
- Cyfeirio, lle bo hynny'n briodol, at ddarllen cyffredinol y tu allan i ffiniau'r gystadleuaeth.
- Y gallu i drafod cymeriadau a'u nodweddion a mynegi barn amdanynt.

SYLWER – CEIR RHAI NEWIDIADAU I'R CANLLAWIAU ELENI

CANLLAWIAU I YSGOLION AR Y CYFLWYNIAD

CYFFREDINOL

1. Cyflwyniad DIM HWY nag 8 munud o hyd wedi'i seilio ar y llyfr a ddewiswyd.
2. **DYLID DECHRAU A GORFFEN Y PERFFORMIAD Â LLWYFAN WAG.**
3. Gellir defnyddio cerddoriaeth wedi ei recordio o flaen llaw ond **NID OES HAWL GAN ATHRO/ATHRAWES I FOD AR Y LLWYFAN YN CYFEILIO.**
4. Dylid sicrhau copi o'r sgript i'r beirniad gan nodi ai plant neu oedolyn fu'n gyfrifol amdani.

AM BETH FYDD Y BEIRNIAD YN CHWILIO?

- Cyflwyniad sy'n cyfleu naws y llyfr ac yn annog aelodau'r gynulleidfa i deimlo y byddent yn hoffi ei ddarllen.
- Cyflwyniad bywiog gydag effeithiau dramatig amrywiol.
- Defnydd hyderus ac effeithiol o'r llwyfan eang.
- Y gallu i daflu lleisiau ac i gyfleu neges yn glir – rhaid cofio bod llwyfan y theatr yn fawr ac mae angen gwneud defnydd da o'r holl ofod. Mae angen i leisiau fod yn uchel, yn glir ac yn hyderus.
- Rhaid osgoi bod yn rhy lonydd ar y llwyfan – mae angen defnyddio symudiadau'n effeithiol.
- Y gallu i weithio fel tîm – cyfle i bob unigolyn gyfrannu at y cyflwyniad.
- Gall y defnydd o wisgoedd a 'phrops' fod yn effeithiol ond nid ydynt yn orfodol. Weithiau mae gormod o bethau ar y llwyfan yn fwy o rwystr nag o gymorth. Gall set syml fod yr un mor drawiadol â llwyfan llawn celfi ac offer.

DS Gall ysgol sy'n cystadlu am y tro cyntaf ofyn i'r Cyngor Llyfrau am gopi o ddisg sy'n cynnwys esiamplau o gyflwyniadau a berfformiwyd yn y gorffennol.

TREFNYDDION SIROL 2011–2012

ABERTAWE
Joanne Evans
Canolfan Iaith St Helen
Vincent St
ABERTAWE SA1 3TY
joanne.evans@swansea.gov.uk
Ffôn: 01792 649138

CASTELL-NEDD PORT TALBOT
Rhiannon Jenkins
Aberafan House
ABERAFAN SA13 1PJ
rhiannonjenkins@btopenworld.com
Ffôn: 07501251991

BRO MORGANNWG
Ceryl Rowe
Ymgynghorydd Iaith Cynradd
Provincial House
Kendrick Road
Y BARRI
Bro Morgannwg CF62 8UF
cmrowe@valeofglamorgan.gov.uk
Ffôn: 01446 709556

CAERDYDD
Jann Jones
Canolfan Athrawon Howardian
Hammond Way, off Colchester Avenue
Pen-y-lan
CAERDYDD CF23 9NB
jannjones@cardiff.gov.uk
Ffôn: 02920 432715

CAERFYRDDIN
Mari Owen
Adran Addysg a Phlant
Is-Adran Gwelliant a Sgiliau
Adeilad 2
Parc Dewi Sant
Heol Ffynnon Job
CAERFYRDDIN SA31 3HB
MOwen@carmarthenshire.gov.uk
Ffôn: 01267 246609

CAERFFILI, PEN-Y-BONT AR OGWR, MERTHYR A RHONDDA CYNON TAF
Myfanwy Neal
ESIS, Tŷ Dysgu
Cefn Coed
Parc Nantgarw
CAERDYDD CF15 7QQ
myfanwy.neal@esis.org.uk
Ffôn: 01443 827500

CEREDIGION
Delyth Parry Huws
Llawr 1, Depot Glanyrafon
Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon
ABERYSTWYTH
Ceredigion SY23 3JQ
delyth.huws@ceredigion.gov.uk
Ffôn: 01970 633720

CONWY
Enid Davies
Athrawes Ymgynghorol y Gymraeg
Ysgol Dolgarrog
DOLGARROG
Conwy LL32 8QE
enid.davies@conwy.gov.uk
Ffôn: 01492 660967

GWYNEDD
Nia Gruffydd
Rheolwr Gwasanaethau Defnyddwyr
Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd
Canolfan Llyfrgell Caernarfon
CAERNARFON
Gwynedd LL55 1AS
NiaGruffydd@gwynedd.gov.uk
Ffôn: 01286 679465

POWYS
Eirian Evans
Swyddog Cefnogi Ymgynghorol
Swyddfa Rhanbarthol
Yr Hen Goleg
Off Station Road
Y DRENEWYDD
Powys SY16 1BE
eiriane@powys.gov.uk
Ffôn: 01686 626395

SIR BENFRO
Llinos Penfold
Ymgynghorydd Cymraeg
Swyddfa P.P.E.C.
St Clements Road
NEYLAND
Sir Benfro SA31 1HS
llinospenfold@aol.com
Ffôn: 01646 602154

SIR DDINBYCH
Carys Roberts/Leah Jones
Trefnydd Ymgynghorol Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
RHUTHUN
Sir Ddinbych LL15 1YN
Carys.roberts@sirddinbych.gov.uk
Leah.jones@sirddinbych.gov.uk
Ffôn: 01824 708102/03

SIR Y FFLINT
Elfair Roberts
Ymgynghorydd Cymraeg
Neuadd y Sir
YR WYDDGRUG CH7 6NB
Ffôn: 01352 704060

TORFAEN, CASNEWYDD, MYNWY A BLAENAU GWENT
Eirian Jones
3ydd Llawr, Neuadd y Sir
CWMBRÂN
Torfaen NP44 2XH
eirianlljones@yahoo.co.uk
Ffôn: 01633 648872

WRECSAM
Siwan Meirion
Canolfan Erlas
Ffordd Bryn Estyn
WRECSAM LL13 9TY
siwan.meirion@wrexham.gov.uk
Ffôn: 01978 317600

YNYS MÔN
Glenda Williams
Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifanc
Llyfrgell Llangefni
Lôn y Felin
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7RT
gwxlh@anglesey.gov.uk
Ffôn: 01248 752095

FFURFLEN GOFRESTRU

BLYNYDDOEDD 5 a 6

Byddem yn hoffi cymryd rhan yn y Cystadlaethau Llyfrau Cymraeg i Ysgolion Cynradd 2011–2012

Enw'r Ysgol: _____

Cyfeiriad: _____

_____

_____

Ffôn: _____

Ffacs: _____ E-bost: _____

Enw person cyswllt: _____

Dychweler y ffurflen gofrestru mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda at eich trefnydd sirol (gweler y rhestr ar y dudalen flaenorol),

NEU I'R

Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, ABERYSTWYTH,

Ceredigion SY23 2JB

Ffôn: 01970 624151 **Ffacs: 01970 625385** **E-bost: eirlys.parry@cllc.org.uk**